**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN**

**(LLWYBR TROED CYHOEDDUS 22/24 (YN RHANNOL), TALACHARN)**

**GWAHARDDIAD DROS DRO AR DRAFFIG) 2024**

---

**YN GYMAINT Â BOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn allan yma fel "y Cyngor"), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw o Lwybr Troed Cyhoeddus 22/24 (YN RHANNOL) a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi'i fodloni y dylid cyfyngu ar gerddwyr ar y darn hwnnw o'r llwybr troed am resymau diogelwch.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, gan ymarfer ei bwerau o dan Adran 14(1)(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 a'r holl bwerau galluogol eraill, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

Ni fydd unrhyw Gerddwyr yn mynd ar hyd y darn hwnnw o Lwybr Troed cyhoeddus 22/24 (YN RHANNOL) a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r llwybr troed wedi'i gau oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd a achosir gan erydiad. Bydd y Gorchymyn yn parhau mewn grym am 6 mis neu hyd nes bod y llwybr troed yn ddiogel.

Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 16 Mai, 2024, a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llwybr Troed Cyhoeddus 22/24 (YN RHANNOL) Talacharn) (Gwaharddiad Dros Dro Ar Gerddwyr) 2024

**Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )
ar y ddogfen hon
ar yr 10fed o Fai, 2024 ym mhresenoldeb:-

Linda Rees-Jones

**Linda Rees-Jones**

**Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**

**Yr Atodlen**

| **(i)** <br> **<u>Cyfeirnod yr Hawl Dramwy Gyhoeddus a Disgrifiad Ohoni</u>** | | **(ii)** <br> **<u>Y Ffordd Arall</u>** |
|---|---|---|
| Llwybr troed 22/24 (Yn rhannol) | O bwynt i'r dwyrain o gastell Talacharn, gan fynd i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain hyd at y gyffordd â llwybr troed 22/24 cyswllt 3, am bellter o 287 metr. <br><br> Hyd: 287m | O bwynt i'r dwyrain o gastell Talacharn, gan fynd i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain ar hyd Market Lane gan fynd heibio i eiddo a adwaenir fel The Cottage a The Ball i'r gyffordd â Stryd Victoria. Trowch i'r dde a theithio ar hyd Stryd Victoria yna trowch i'r dde a mynd ar hyd y llwybr troed â'r arwydd 'Cartref Dylan Thomas' a elwir yn Cliff Road am bellter o 230 metr. Trowch i'r dde gyferbyn â'r byngalo ac ewch i lawr y grisiau i'r traeth i ymuno â llwybr troed 22/24 cyswllt 4 er mwyn dychwelyd i fan sydd i'r gorllewin o'r man lle mae'r llwybr ar gau. <br><br> Hyd: 457m |